

The Electoral Commission

Ydych chi'n cynnal hustyngau?

Mae'r daflen ffeithiau hon ar gyfer unrhyw un sy'n trefnu hustyngau, ac ar gyfer ymgeiswyr neu bleidiau gwleidyddol sy'n bresennol mewn hustyngau.

Hustyngau

Cyfarfod yw hustyngau lle mae ymgeiswyr etholiadol neu bleidiau yn cynnal dadl ar bolisïau ac yn ateb cwestiynau gan y gynulleidfa. Mae hustyngau yn rhoi cyfle i bleidleiswyr glywed barn ymgeiswyr neu bleidiau.

Pan gaiff pob ymgeisydd neu blaid sy'n sefyll eu gwahodd, nid yw hustyngau yn rhoi budd i unrhyw ymgeisydd na phlaid benodol oherwydd caiff pob un y cyfle i siarad ac i wynebu cwestiynau.

Mae'r daflen ffeithiau hon yn esbonio pryd nad yw hustyngau'n rhoi budd i unrhyw blaid nac ymgeisydd penodol, sef yr hyn rydym yn ei alw'n 'hustyngau annetholus'. Ni chaiff gwariant ar hustyngau annetholus ei reoleiddio ac nid oes angen i neb roi gwybod amdano.

Mae hefyd yn esbonio sefyllfaoedd lle mae hustyngau'n rhoi budd i'r ymgeiswyr neu'r pleidiau sy'n bresennol. Galwn y rhain yn 'hustyngau detholus'. Yn yr achos hwn gall fod angen iddynt roi cyfrif

am y gwariant yn eu ffurflenni gwariant.

Cewch ddewis a yw eich hustyngau yn ddeholus neu'n annetholus.

Hustyngau annetholus

Hustyngau annetholus yw hustyngau nad ydynt yn rhoi budd i unrhyw bleidiau gwleidyddol nac ymgeiswyr penodol.

Yn ein barn ni, bydd eich hustyngau yn annetholus os yw'r canlynol yn berthnasol:

- rydych wedi gwahodd pob ymgeisydd neu blaid y gwyddoch sy'n sefyll yn yr etholaeth, rhanbarth neu ardal etholiadol arall, neu
- mae gennych resymau diduedd dros beidio â gwahodd rhai ymgeiswyr neu bleidiau

Gall rhesymau diduedd ddeillio o'r ystyriaethau canlynol:

- adnoddau a phethau ymarferol eraill sy'n cyfyngu ar nifer y rhai y gellir eu gwahodd
- pryderon ynghylch diogelwch
- amlygrwydd lleol rhai pleidiau neu ymgeiswyr dros eraill
- nifer y cynrychiolwyr etholedig ar lefel leol neu genedlaethol

- canlyniadau etholiad yn ddiweddar yn yr ardal

gan ymgeiswyr neu gynrychiolwyr pleidiau eraill

Hustyngau detholus

Hustyngau detholus yw hustyngau sy'n rhoi budd i bleidiau gwleidyddol neu ymgeiswyr penodol - er enghraifft, os ydych yn gwahodd rhai ymgeiswyr neu bleidiau i'ch hustyngau ac nid oes gennych resymau diduedd dros beidio â gwahodd y lleill.

Bydd gwariant ar hustyngau detholus yn cael ei reoleiddio mewn rhai amgylchiadau ac efallai eich bod yn gwneud rhodd i bob ymgeisydd neu blaid sy'n bresennol.

Ffyrdd eraill o sicrhau cydbwysedd

Os penderfynwch beidio â gwahodd pob ymgeisydd am resymau diduedd, mae rhai argymhellion arfer da y dylech eu dilyn er mwyn sicrhau nad yw eich hustyngau yn hyrwyddo ymgeiswyr na phleidiau penodol yn fwy nag eraill:

- Hysbysu'r gynulleidfa yn y cyfarfod am unrhyw ymgeiswyr neu bleidiau sy'n sefyll na chawsant eu gwahodd
- Bod yn barod i egluro eich rhesymau diduedd i ymgeiswyr neu bleidiau nad ydych wedi'u gwahodd
- Gwneud yn siŵr bod ymgeiswyr neu bleidiau a wahoddwch yn cynrychioli amrywiaeth rhesymol o safbwyntiau, o rannau gwahanol o'r sbectrwm gwleidyddol
- Rhoi cyfle teg i bob ymgeisydd neu gynrychiolydd plaid a fydd yn bresennol ateb cwestiynau a, lle y bo'n briodol, roi cyfle rhesymol iddynt ymateb i bwyntiau a wnaed yn eu herbyn

Diogelwch

Nid ydym yn rheoleiddio'r modd y caiff hustyngau eu cynnal na'u rheoli.

Ond os ydych yn trefnu hustyngau, rydym yn argymhell eich bod yn ystyried beth fyddwch yn ei wneud er mwyn sicrhau diogelwch y cynrychiolwyr a fydd yn bresennol yn eich digwyddiad, ac er mwyn rheoli'r digwyddiad yn effeithiol.

Rhoi cyfrif am y gwariant

Fel arfer mae gwariant ar hustyngau yn isel.

Os ydych yn cynnal hustyngau annetholus, ni chaiff eich gwariant ei reoleiddio.

Bydd angen i'r ymgeiswyr neu'r pleidiau sy'n bresennol roi cyfrif am wariant ar hustyngau detholus, os yw'r gwariant dros drothwy penodol.

Os ydych yn cynnal hustyngau detholus, dylech hysbysu'r ymgeiswyr a'r pleidiau eu bod yn ddetholus pan fyddwch yn eu gwahodd.

Dylech gadw cofnod o'ch gwariant, rhannu'r cyfanswm rhwng yr ymgeiswyr neu'r pleidiau a fu'n bresennol yn y digwyddiad a dweud wrth bob un ohonynt beth yw eu rhan o'r gost.

Os yw'r swm yn fwy na £50 fesul ymgeisydd, neu £200 fesul blaid, rhaid iddynt ei gofnodi fel gwariant tybiannol yn eu ffurflenni ar ôl yr etholiad.

Os yw'r swm yn fwy na £50 fesul ymgeisydd, neu £500 fesul blaid, rhaid iddynt i'r gofnodi'r gwerth fel

rhodd gan drefnydd yr hustyngau hefyd.

Dylai ymgeiswyr a phleidiau ddarllen ein [canllawiau ar gyfer ymgeiswyr](#) neu ein [canllawiau ar gyfer pleidiau](#) am ragor o fanylion ar wariant a rhoddion.

Sut y gallwn helpu

Gallwch weld ein hystod lawn o ganllawiau a'n hadnoddau diweddaraf ar ein gwefan.

Gallwch gysylltu â ni ar y rhif ffôn isod neu drwy e-bost ar y cyfeiriad isod. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch ni ar:

- Lloegr: 0333 103 1928
pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban: 0333 103 1928
infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Cymru: 0333 103 1929
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
- Gogledd Iwerddon: 0333 103 1928
infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ewch i

<http://www.comisiwnetholiadol.org.uk>

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau - e-bostiwch ni yn:

pef@electoralcommission.org.uk

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bostiwch ni yn:

cyhoeddiadau@comisiwnetholiadol.org.uk